**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL A GYNHALIWYD**
**AR DDYDD IAU 16/11/2017**
**YN LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL**

Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cyngh. Doug Rowbotham a'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies.
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ymddiheurodd Y Cyngh. John Jones a'r Cyngh. Wil Lewis am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YWNEUD Â'R HEDDLU**

Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans mai mis tawel y bu Hydref 2017 ar y cyfan. Bu dau fân ddigwyddiad ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol; ni fu unrhyw fyrgleriaeth na lladrad yn ystod mis Hydref na Tachwedd. Bu bygythiadau trwy gyfryngau cymdeithasol a dros y ffôn yn ystod Tachwedd ac adroddwyd bod brathiad cŵn wedi cymryd lle.
Yn ystod y cyfarfod blaenorol, roedd aelodau wedi mynegi pryder ynglŷn â'r broblem barhaus ynghylch cyffuriau yn yr ardal. Pwysleisiodd SCC yr Heddlu Evans y dylai unrhyw un a oedd yn cadw gwybodaeth hysbysu'r Heddlu mewn ymgais i ganfod enwau'r rhai a gyflenodd y cyffuriau.
Cyfeiriwyd hefyd at gyflymder cerbydau yn teithio drwy'r Pentref rhwng 10-10.30pm ac yn enwedig yn ystod y penwythnosau. Gofynnwyd i'r Heddlu ymchwilio i'r mater.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. Cofnodion y cyfarfod o'r 19eg o Hydref 2017**

**PENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod 19eg Hydref 2017 yn gofnod cywir, heblaw am y newidiadau canlynol:
**Cofnod 9.7** Hurio Coffa'r Rhyfel Tregaron: Hyfforddiant Cod Ymddygiad £5
Dylid darllen: *Neuadd Goffa, Tregaron* (Fersiwn Saesneg yn unig)
**Cofnod 11.5** Cyflwynwyd arwyddion gan Waunfelin a Dolyrychain yn rhybuddio gyrwyr bod y ffordd yn culhau ger y lleoedd hyn. Awgrymwyd bod arwyddion yn cael eu harddangos ar y corneli.
Dylent ddarllen: *Cytunwyd i ofyn am arwyddion ger Wernfelen.*
Cytunwyd ar y Cofnodion a'u llofnodi fel cofnod cywir gan y Cyng. Clare Hughes.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Glan-yr-Afon & thocio coed ger y bont ger Maesydderwen:** Trafodwyd y llwybr ar hyd glan yr afon. Cyfeiriwyd at y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir ynghynt yn y flwyddyn mewn perthynas â'r darn o dir a elwir yn Glan yr Afon.
Nid yw'r ardal wedi ei gofrestu gan y Gofrestrfa Tir. Y mae'r Cyngor Cymuned yn talu am 3 toriad y mis @ £40 y toriad. Cytunwyd i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ac i'w hysbysu bod y llwybr cerdded cyhoeddus wedi'i gau ac a ellid gwneud trefniadau i'w ailagor.

**7.2 Cais am: Bont i Gerddwyr ochr yn ochr â phont hanesyddol Pontrhydfendigaid**

Bu i'r Gyngh. Clare Hughes drefnu Deiseb i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal hon a gofynnodd am bont ar gyfer cerddwyr ger y bont hanesyddol Pontrhydfendigaid. Anfonwyd y Ddeiseb, a oedd wedi cynnwys 200 o enwau, at Gyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd yn yr ymateb gan GSC fod peirianwyr ar hyn o bryd yn asesu amodau'r bont ac yn argymell atebion priodol. Bydd CSC yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ar ôl i'r broses ddod i ben. **PENDERFYNWYD** gofyn am gyfarfod safle. Dim Datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn. Cytunwyd i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion unwaith yn rhagor.

**7.3 Arolwg Parc Adroddiad Rospa 2107**

Bu i ROSPA gynnal archwiliad parc yn ystod mis Mehefin am ffi o £66.50. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad.

Dywedwyd bod angen sylw ar y cylchfan. Penderfynwyd clustnodi sylw pellach i'r sefyllfa yn ystod Gwanwyn 2018 pan fyddai'r matiau yn cael eu hystyried yn ogystal.

**7.4 Grant Gwyrdd, CS Ceredigion:** Adroddwyd bod y Banc Boteli yn aml yn llawn i'r ymylon a gadewir poteli ger y Banc Poteli. **PENDERFYNWYD** darganfod tybed a ellid arddangos arwyddion ger y Banc Poteli o dan nawdd y Grant Gwyrdd i annog pobl i ddileu'r arfer hwn. Gallai Swyddog Gwarchod yr Amgylchedd CSC ddarparu arwyddion mewn perthynas â gwibdipio (fel rhan o'r grant) ac y mae'n barod i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i'w gosod yn y mannau perthnasol. **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod cynt i gysylltu â ChSC i geisio trefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog perthnasol i drafod ymhellach. Y Cynghorydd Clare Hughes a'r Gyngh Laura Jones i fynychu'r cyfarfod. *Dim Datblygiadau. i geisio diweddariad oddi wrth y Cyngor Sir.* Gofynnodd Rachel Mills, CS Ceredigion, ble y dylid gosod arwyddion tipio anghyfreithlon.

**7.5 Argymhellodd Archwiliad Grant Thornton Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar** gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17 ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gael gwefan mewn lle yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Gwnaeth y Gyngh. Laura Jones ymholiadau pellach ynglŷn â darparu gwefan ar gyfer y Cyngor Cymuned. Ffi flynyddol WordPress https://wordpress.com oedd £10.00 a ffi cynnal y mis o £3 ychwanegol. Cost cofrestru £10.90; Enw'r Parth – y gost £7.29. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig hwn. Cytunwyd ar yr enw parth fel www.ccystradfflurcc.org.uk. Bydd y Gyngh. Laura Jones yn symud y mater ymlaen. Caiff cofnodion (o Fai 2017) / agendâu parhaus / manylion cyswllt aelodau eu postio ar y wefan. Gellid cynnwys hanes byr o'r ardal (dwyieithog) i gynnwys hen ffotograffau.

**7.6 Cŵn Yn Baeddu:** parheir i fod yn broblem o fewn y Pentref. Cytunwyd i brynu chwistrellu lliw.

**7.7 Gwasanaeth Sul Cofio, Dydd Sul 12 Tachwedd 2017 @ 11am, Cofeb Rhyfel, Pontrhyfendigaid.**

Roedd 63 o bobl wedi bod yn bresennol. Cytunwyd i ddiolch i'r Parch. Aled Lewis am fod yng ngofal y Gwasanaeth. Cytunwyd hefyd i ddiolch i John Jenkins, Ynysforgan, Lledrod am ymgymryd â'r rôl o fiwgler a Mr Lynne Ebenezer am osod y dorch a chyflwyno cerdd. Bydd 2018 yn nodi canmlwyddiant ddiwedd Rhyfel Byd Cyntaf; cynigiwyd y gellid cysylltu â

disgyblion yr Ysgol Gynradd i gymryd rhan yn y Gwasanaeth a gallai nifer o sefydliadau gyflwyno torchau. Cyfrannodd y canlynol:
**Darllen enwau'r milwyr, a syrthiwyd:** Y Cynghorydd Gareth Owen a'r Cyng. Doug Rowbotham. **Gweddïau**:. Y Cynghorydd John Jones (Cymraeg); y Cyngh Sirol Ifan Lloyd-Davies (Saesneg) a Datganiadau. **Darllen o'r Ysgrythur:** Y Gyng. Mair Jones (Cymraeg); y Gyngh. Clare Hughes (Saesneg).
Gwnaethpwyd sôn am ŵr, a anwyd ym Mhontrhydfendigaid ac ymfudodd i Awstralia, a oedd ynghlwm â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cytunwyd i ddarganfod ble oedd y Gofgolofn yn dwyn ei enw, wedi'i leoli yn Awstralia.

7.8 **Roedd anghydfod wedi codi rhwng perchnogion dau eiddo preifat yn y pentref o ran gwter eu cartrefi.** Dywedodd cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru fod hwn yn fater personol rhwng yr unigolion dan sylw.

**8. GOHEBIAETH**

8.1 **Ymateb gan Mr Huw Evans, Fferyllydd, Tregaron** ynglŷn â chais y Cyngor Cymuned yn gofyn petai ei Fferyllfa yn gallu bod ar agor dros gyfnod oriau'r Syrgeri y Meddygon yn Nhregaron. Dywedwyd nad oedd hyn yn ymarferol gan fod amserau agor y Syrgeri yn amrywio o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos. Byddai'n fwy buddiol petai Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn gofyn i'r Feddygfa I fynd i afael â'r materion a amlygwyd. Gwerthfawrogwyd bod Mr Evans yn barod yn darparu gwasanaeth trylwyr a chynhwysfawr yn ymestyn dros ardal eang a bod y claf bob amser yn ffocws blaenllaw yn y gwasanaeth.

8.2 **Gorchymyn Creu Llwybrau Cyhoeddus 2017:** Deddf Priffyrdd 1980: Cyngor Sir Ceredigion: Llwybr Cyhoeddus 79/43, Y Felin Fach, Ysbyty Ystwyth. Gwneir y Gorchymyn gan Gyngor Sir Ceredigion o dan adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 oherwydd mae'n ymddangos i'r awdurdod, wrth ystyried y materion a nodir yn adran 26 (1), bod angen lleoli llwybr cyhoeddus dros y mae'r gorchymyn hwn yn berthnasol iddo a'i fod yn hwylus creu llwybr.

8.3 **Gohebiaeth Arall**: Er Gwybodaeth Yn Unig.

**9. CYLLID**

9.1 **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd ond ni dderbyniwyd llyfr siec; caiff arian ei dynnu allan o'r prif gyfrif.

9.2 **Cyflog y Clerc** Hydref 2017 £155.07

9.3 **Cyllid a Thollau EM** Hydref 2017 £38.76

9.4 **Ad-daliad** y Gyngh. Clare Hughes £21.47

**10. CYNLLUNIO**

10.1 **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

10.2 **Cyngor Sir Ceredigion:** Cais Cynllunio: A170988. Cynnig: Newid defnydd parlwr godro segur i ddefnydd swyddfa gyda gwaith trin carthffosiaeth wedi'i becynnu'n newydd. Lleoliad: Y Beudy, Mynachlog Fawr, Pontrhydfendigaid. **Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiadau.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

11.1 **Argoed, Pontrhydfendigaid, twll pot**: i adrodd at sylw CS Ceredigion.

11.2 **Gwahoddwyd Cynghorwyr i fynychu** Lansiad Llyfr Newydd Lyn Ebenezer ar ddydd Gwener, 1af Rhagfyr 2017 am 7pm yn Neuadd Pantyfedwen**.**

11.3 **Goleuo'r Goeden Nadolig yn y Pentref a'r Digwyddiad Cymunedol ar gyfer y Nadolig:** i'w gynnal ar ddydd Gwener, 8 Rhagfyr 2017.

11.4 **Mae angen Plac ar gyfer y goeden dderwen,** a blannwyd i ddathlu Jiwbilî Ddiemwnt EM y Frenhines Elisabeth 11 ym 2012.

11.5 **Y Cerflun y Ddynes ar y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid:** cytunwyd i ddarganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â Cherflun y Foneddiges ar y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid**.**

11.6 **Llais y Goedwig:** Bydd Llais y Coetiroedd Cymunedol yng Nghymru yn cynnal digwyddiad ar ddydd Mercher 29 Tachwedd 2017 o 10am-3pm.

***Daeth y Cyfarfod i ben am*** **8.45pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Dydd Iau 18fed o Ionawr 2018 at 7pm.**

=====================================================
(Arwyddwyd/Dyddiad )